

Cais am Ganiatâd i Arddangos Hysbyseb(ion)

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992

Dylai'r ffurflen 'Cais am Ganiatâd i Arddangos Hysbyseb' gael ei defnyddio ar gyfer cynigion i arddangos hysbyseb neu arwydd lle mae angen cael caniatâd hysbysebu.

Beth yw 'hysbyseb'?

Mae'r term "hysbyseb" yn cwmpasu ystod eang iawn o hysbysebion ac arwyddion gan gynnwys:

- posteri a hysbysiadau
- placardiau a byrddau
- arwyddion ffasgia ac arwyddion bargodol
- arwyddion polion ac arwyddion canopi
- modelau a dyfeisiau
- blaenarwyddion ac arwyddion cyfeiriol
- byrddau asiantautai
- hysbysebion balwnau caeth (*nid* balwnau sy'n teithio drwy'r awyr)
- hysbysebion baneri
- marcwyr prisiau ac arddangosfeydd prisiau
- arwyddion traffig
- arwyddion enwau trefi a phentrefi

Nid ystyrir bod cofebion na signalau rheilffyrdd yn hysbysebion.

Pryd mae angen cael caniatâd hysbysebu?

Ymhlith y mathau o hysbysebion sy'n gofyn am ganiatâd hysbysebu fel arfer mae'r canlynol:

- y rhan fwyaf o arwyddion wedi'u goleuo
- hysbysebion sy'n defnyddio strwythurau arbenigoli'w harddangos, megis palisau posteri a'r rhan fwyaf o flaenarwyddion rhybudd neu arwyddion cyfeiriol wrth ymyl y ffordd nas gosodwyd gan yr awdurdod priffyrdd
- arwyddion ffasgia ar flaen siopau a safleoedd busnes lle y mae unrhyw ran o'r hysbyseb 4.6 metr yn uwch na lefel y tir.

Wrth benderfynu ar geisiadau am ganiatâd hysbysebu, dim ond ystyried 'amwynder' a 'diogelwch y cyhoedd' a wnaiff awdurdodau cynllunio lleol.

Ni chaiff rhai hysbysebion eu rheoleiddio gan yr awdurdod cynllunio, ac mae eraill yn elwa ar 'ganiatâd tybiedig', sy'n golygu nad oes angen cael caniatâd penodol oddi wrth yr awdurdod cynllunio lleol, yn dibynnu ar faint yr hysbyseb, ei leoliad a ph'un a gaiff ei oleuo. Bydd angen i eraill gael caniatâd penodol bob amser.

Cyngor: Rhaid cymryd gofal arbennig wrth arddangos arwyddion ar neu wrth ymyl

adeiladau rhestredig fel nad ydynt yn amharu ar gymeriad nac ymddangosiad yr adeilad. Bydd angen i hyd yn oed arwyddion a ganiateir fel arfer o dan y rheoliadau ar gyfer hysbysebion gael caniatâd adeilad rhestredig ar wahân os ydynt ynghlwm wrth adeiladau rhestredig.

Pwy sy'n rheoli hysbysebion yn yr awyr agored?

Fel arfer, awdurdodau cynllunio lleol, sef y Cyngor Sir gan amlaf, sy'n gyfrifol am y system rheoli hysbysebion a phenderfynu a ddylai hysbyseb penodol gael caniatâd ai peidio.

- Eto i gyd, os bydd eich hysbyseb yn cael ei harddangos o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro neu Barc Cenedlaethol Eryri yr awdurdod cynllunio lleol yw'r Parc Cenedlaethol hwnnw.
- Os bydd yr awdurdod cynllunio yn gwrthod rhoi caniatâd ar gyfer eich hysbyseb, neu'n gofyn i chi gael gwared ar hysbyseb sy'n bodoli eisoes, mae gennych hawl i apelio yn erbyn ei benderfyniad

Yn aml, mae'n ddefnyddiol trafod eich cynnig gyda'r awdurdod cynllunio lleol cyn i chi gyflwyno eich cais - gelwir hyn yn gyngor cyn gwneud cais. Bydd gan awdurdod cynllunio lleol fel rheol fanylion ynghylch sut i wneud hyn ar ei wefan.